# Papur Pawb

Pris: 50c

Ebrill 2026 Rhif 518






tud 5 Biosffer Dyfi

tud 6-7 Ysgol Tal-y-bont

tud 8 Yn NATURiol

tud 12 Capiau Cymru


# O Glanaber i Seland Newydd

## gan Mari a Ieuan Evans



**Dechreuodd y cyfan nôl ym mis Gorffennaf 2025 pan enillodd Dad, Rhydian Evans, gystadleuaeth Pencampwr Cneifio Gwellau Cymru yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd. O ganlyniad, enillodd ei le ar Dîm Cymru i gystadlu ym Mhencampwriaeth Cneifio'r Byd yn *Masterton*, Seland Newydd, rhwng 4 a 7 Mawrth 2026.**

Roedd y tîm yn cynnwys dau gneifiwr peiriant, dau gneifiwr gwellau, dau driniwr gwlân, a rheolwr tîm. Y cneifwyr peiriant oedd Gwion Lloyd Evans a Llŷr Jones; y cneifwyr gwellau oedd Elfed Jackson a Rhydian Evans; a'r trinwyr gwlân oedd Jessica Morgan a Sarah-Jane Rees. Y rheolwr oedd Rhys Jones.

Er mai dim ond pedwar diwrnod oedd y gystadleuaeth yn para, roedd rhaid i Dad a gweddill y tîm fynd allan yn gynharach i ymarfer. Felly, fe wnaethon ni hedfan i Seland Newydd ar ddydd Llun 9 Chwefror 2026 a chyrraedd yn *Auckland* ar ddydd Mercher 11 Chwefror.

Fe wnaethon ni benderfynu aros yn Ynys y Gogledd yn unig yn ystod ein hamser yno. Treulion ni'r ddau ddiwrnod cyntaf yn *Auckland* er mwyn bwrw ein blinder.

Fe wnaethon ni ymweld â'r *Sky Tower*, lle gallech weld am filltiroedd o gwmpas. Cafodd y tŵr ei adeiladu yn 1997, ac yn 328 metr o uchder. Dyma'r strwythur dynol talaf yn Seland Newydd, mae hynny tua 37 o fysiau wedi'u gosod pen wrth ben! Mae'r Sky Tower yn pwyso tua 21 miliwn kg, sef tua'r un pwysau â 6,000 o eliffantod.

Aethon ni ar *Auckland Adventure Jet*, cwch jet cyflym ar Harbwr *Waitematā*, oedd yn troelli ac yn gwneud triciau ar y dŵr.

Yna aethon ni ymlaen i *Rotorua*, gan stopio ar hyd y ffordd yn y *Blue Spring* yn *Putāruru*, cyn mynd i weld yr adeiladau siâp unigryw yn *Tīrau*.

Treulion ni ddau ddiwrnod yn *Rotorua*. Aethon ni i fyny i'r *Skyline* ar y *gondola* ac wedyn ar y *luge*. Cawson ni hwyl yn ceisio rasio yn erbyn ein gilydd ac yn erbyn Mam a Dad i lawr y trac.

Yna aethom ni i *Velocity Valley* i roi cynnig ar y *Swoop*, swing *bungee* enfawr a gododd ni 40 m i'r awyr ac yna'n plymio ben cyntaf tuag at y ddaear ar gyflymder o tua 80 milltir yr awr!

Os nad oedd hynny'n ddigon, aethom i *ZORB Rotorua*. Gwnaethom neidio fel *Superman* i mewn i bêl fawr chwythadwy a rholio i lawr Mynydd *Ngongotaha*. Roedd hyn yn lot o sbort a chwerthon yr holl ffordd i'r gwaelod.

I gloi ein hymweliad â *Rotorua* wnaethom ymweld â Phentref Thermol *Whakarewarewa*. Roedd hi'n wych gweld geysers, ffynhonnau poeth, a dysgu am ddiwylliant a thraddodiadau *Māori*.




.........Parhau ar dudalen 4

## Papur Pawb


**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**Parsel Henllys:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Cathryn Lloyd-Williams
**cat_yfoel@hotmail.com**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwys-fach/Ffwrnais:**
Lona Mason
lonaacrobyn@btinternet.com
**07507 652092**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

**Cadeirydd:**
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
**832697**

**Is-gadeirydd:**
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
**832773**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Helena O Sullivan, Bont-goch
**07812 994 008**

**Dylunio:**
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

**Plygu'r Papur:**
Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins

**Dosbarthwyr:**
Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon; John Evans; Innes Heron

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

CYMRAEG

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)



## GOLYGYDDION

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Rhian a Shân gydag Iolo yn dilunio. Diolch iddynt.

Golygyddion rhifyn Mai fydd Fal a Gwyn (golygydd@papurpawb.com).

Y dyddiad cau yw 8 Mai a bydd y papur ar werth ar 15 Mai.

## CYMDEITHAS Y CHWIORYDD REHOBOTH



Glyn Saunders Jones, Tal-y-bont, oedd y gŵr gwadd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mawrth, a theitl ei sgwrs oedd 'Dilyn y Freuddwyd'. Adroddodd hanes ei fywyd o'i eni yn Abergwyngregyn ac ymlaen i'r presennol. Yn 2003 penderfynodd adael ei swydd fel Pennaeth y Ganolfan Astudiaethau Addysg ym Mhrifysgol Aberystwyth i 'ddilyn ei freuddwyd' a sefydlu cwmni Atebol. Ef yw Cyfarwyddwr y cwmni sydd a'i bencadlys yn y Fagwyr, a dros y blynyddoedd maent wedi cyhoeddi'n helaeth i fyd llenyddiaeth Gymraeg ac yn 2024 enwyd cyfrol Mari George, *Sut i Ddofi Corryn* yn Llyfr y Flwyddyn. Mae'r cwmni wedi ehangu'n sylweddol erbyn hyn drwy fod yn flaengar, a Cyfatebol yn rhan arall o'r cwmni sy'n darparu gwasanaethau cyfieithu ac isdeitlo ar gyfer rhaglenni teledu. Mae ganddynt swyddfeydd mewn sawl tref yng Nghymru gyda dros ddeugain o staff yn gweithio iddynt. Ddwy flynedd yn ôl gwnaethant dderbyn Gwobr Cyfraniad Arbennig gan Cwlwm Cyhoeddwyr Cymru i gydnabod eu gwaith arbennig ym myd cyhoeddi yng Nghymru. Mae'n braf medru sôn am lwyddiant busnes lleol, a diolchwyd yn gynnes i Glyn am rannu ei freuddwyd a'i brofiadau gyda ni. Yna mwynhawyd y te a baratowyd gan Falyri Jenkins.


Gŵyl Ddrama Gogledd Ceredigion

Gwledd o ddrama
yng nghwmni
Cwmni Drama Licris Olsorts
Cwmni Drama Brynrhos
a Doli Micstiyrs
ac eitemau gan artistiaid lleol eraill

Neuadd Lisburn, Llanafan nos Iau 23ain Ebrill
Theatr Arad Goch nos Fercher 29ain Ebrill
Neuadd Rhydypennau nos Wener 1af Mai
7:30
Mynediad £8 i oedolion - plant ysgol am ddim

dramaceredigion.cymru



Cronfa *Cae Bach*
**Sêl planhigion**
Dewch i brynu planhigion i'r tŷ a'r ardd neu i fwynhau paned a chacen am £2.50
BARGEN!
25.04.26 10:00 - 13:00
Neuadd Tal-y-bont




# DYDDIADUR

**EBRILL**

12 **Bethel** 10 Geraint Evans (Cwrdd Eglwys i ddilyn)
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

13 **Sefydliad y Merched Eglwysfach** 7–8.30 Yr Ystafell Haearn (Dosbarth Cymorth Cyntaf gan y Groes Goch)

14 **Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** Te prynhawn
**Sefydliad y Merched Taliesin** 7 Neuadd Llanfach ('Diffibrilwyr' gan Ambiwlans Sant Ioan)

15 **Coffi a Chlonc** 10.30–12 Neuadd Llanfach

16 **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 7 Gweddi Hwyrol

19 **Bethel** 10 Megan Williams (C)
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

20 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** 7.30 Richard Huws

24 **Sesiwn Nos Wener** 8 Y Llew Gwyn (Linda Griffiths)

25 **Sêl planhigion** Neuadd Goffa Tal-y-bont

26 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Sesiwn Arddio** 10–12 Cletwr

28 **Dwy ddrama fer** gan Theatr Troedyrhiw 7.30 Neuadd Goffa Tal-y-bont

**MAI**

3 **Bethel** 10 Uno ym Methel Aberystwyth, Peter Thomas
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Eglwys Sant Pedr, Elerch** 2.30 Cymun Bendigaid

10 **Bethel** 10 Wyn Morris (C)
**Rehoboth** 11.15 Rhidian Griffiths
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Cymun Bendigaid
**Sesiwn Arddio** 10–12 Cletwr

17 **Gŵyl y Peillwyr** 10–4 Cletwr

**BOB WYTHNOS**

**Neuadd Goffa Tal-y-bont** Bore Mawrth 10–12 Cwtsh Cynnes, coffi a chlonc
**Cletwr** Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'

Cofiwch anfon manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o'r papur.

**Ystafell Haearn, Eglwysfach, Nos Lun, 13 Ebrill 7.30 -9.00yh Dosbarth Cymorth Cyntaf gan y Groes Goch agored i bawb. Lluniaeth ar gael.**

# Pobl a Phethe

**Dymuniadau gorau**
Dymuniadau gorau am wellhad buan i Barbara Jenkins, Hafod Ifan ac Arwel West, Tal-y-bont sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar. Hefyd Richard Burnham, Salon Leri sydd yn yr ysbyty yng Nghaerdydd.

**Sioe Ddawns Canolfan y Celfyddydau**
Llongyfarchiadau mawr i blant a phobl ifanc yr ardal a fu'n dawnsio yn y sioe '*The Show Must Go On*' ar lwyfan Theatr y Werin ar y 27ain a'r 28ain o Fawrth.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Mike a Jane Bailey, Troedrhiwseiri ar ddod yn Ddadcu a Mamgu i'w hwyr cyntaf sef Max a aned i Rosie a Harrison yn Leeds.

Llongyfarchiadau hefyd i Dei a Shân Evans, Tanllan ar enedigaeth ei hwyres Mabli, i Lowri a Dan ym Mhenrhyncoch.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Dewi Evans, Penygraig, Bont-goch ar golli Elizabeth Tegwen, mam annwyl i Keith ac Aled, a mam yng nghyfraith Julie a Sharron.

Bydd teyrnged i ddilyn yn y rhifyn nesaf.

**Pen blwydd hapus**
Pen blwydd hapus arbennig i Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont.




**gyda Llio Evans - soprano**

| | |
|---|---|
| *Gloria* Francis | **Poulenc** |
| *Stabat Mater* | **Giuseppe Verdi** |
| *Chants d'Auvergne* | **Cantaloube** |

**25 Ebrill 7.30 yh Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth**

DARLITH FLYNYDDOL MORLAN-PANTYFEDWEN 2026

**'Religion in the 21st Century University: A source of conflict or community?'**

Darlith gan **Dr Mathew Guest**

Athro mewn Cymdeithaseg Crefydd, Prifysgol Durham

**Nos Lun, 27 Ebrill, 2026**
**6.00 o'r gloch**
**MYNEDIAD AM DDIM**

Canolfan Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth
CROESO CYNNES I BAWB

**Cyfarfod:**

**Cymdeithas y Brytaniaid Annibynnol**

**Nos Fawrth**
**7 Mai, 7:30 p.m.**

**Ystafell 2**
**Canolfan Fethodistaidd St. Paul**
**Morfa Mawr**
**Aberystwyth**

## Clwb Gwawr Y Pennau



**Taith i Gwin Dylanwad, yn Nolgellau oedd gweithgaredd mis Mawrth Clwb Gwawr y Pennau. Ar ôl croeso cynnes gan Llinos, cawsom sgwrs ddiddorol gan ei gŵr, Dylan. Bu'n siarad am ei brofiadau yn ymweld â gwinllannoedd ar draws y byd yn chwilio am winoedd ar gyfer y siop yn Nolgellau. Eglurodd sut mae newid hinsawdd yn cael effaith negyddol ar rhai gwinllannoedd ac effaith gadarnhaol ar eraill. Esboniodd sut mae asidedd pridd yn cynhyrchu gwahanol rawnwin a blasau amrywiol.**

Ar ôl y sgwrs daeth hi'n amser blasu'r cynnyrch, a teg dweud ein bod i gyd wedi mwynhau yr amrywiol winoedd! Ar y cyfan roedd pawb wedi mwynhau'r gwin pefriog o'r Eidal, ond 'doedd pawb ddim yn hoff o'r gwin 'gwahanol' o Georgia. Roedd un neu ddwy (heb enwi neb!!) wedi cael cryn flas ar y gwin coch. Cawsom hefyd amrywiaeth o gawsiau a chigoedd Cymraeg gyda'r gwin.

Diolch i Llinos a Dylan am brynhawn hwyliog dros ben. Os cewch gyfle ewch draw i Ddolgellau, mae'r bws yn rhedeg yn rheolaidd a chewch groeso Cymreig yn Gwin Dylanwad!

## Ymweliad staff Bwyty Ynys Hir â Fferm Llaeth Teulu Jenkins



Mae'n braf iawn clywed am gwmnïau lleol yn cyd-weithio i hyrwyddo cynnyrch lleol Cymreig. Bu staff Bwyty Ynyshir ar ymweliad ar fferm Cerrigcaranau yn ddiweddar i ddysgu am y broses o basteureiddio a sut mae Llaeth Teulu Jenkins yn cael ei gynhyrchu. Mae'r llaeth yn cael ei ddefnyddio yn y bwyty 2 Seren Michelin byd-enwog yn Ynyshir.

Parhad o dudalen 1:

## O Glanaber i Seland Newydd




Wnaethon hefyd ymweld â *Te Kūiti*, *Ōtorohanga*, *Huka Falls* a *Taupō* cyn gwneud ein ffordd lawr i ardal *Hawke's Bay* lle wnaethon ni aros am 12 diwrnod gan mai'r ardal yma oedd Dad yn ymarfer ar gyfer y gystadleuaeth.

Buon ni'n ddigon ffodus i gael mynd allan gyda Dad i'r siediau cneifio, ac fe wnaethon ni ymweld â phedair sied dros y cyfnod. Yn un o'r ffermydd, roeddent yn cadw 2,200 o deirw a 3,800 o ddefaid. Gan nad oeddem yn hoffi eistedd lawr a gwylio, fe wnaethon ni benderfynu helpu. Job Mari oedd cymryd y gwlân oddi ar y trinwyr gwlân, ei roi mewn sach a gweithredu'r peiriant *wool press*, gwagio bag o'r peiriant a'i storio yng nghornel y sied. Swydd Ieuan oedd llenwi'r pens i'r cneifwyr.

Ym mhob sied allan yn Seland Newydd mae peiriant *Wool Press* sy'n gwasgu'r gwlân i mewn i fagiau. Fe welon ni ddau fath gwahanol: yr hen breser pren, lle oedd angen gwneud y gwaith i gyd â llaw, a phreser trydan lle'r unig beth oedd angen ei wneud oedd cau'r caead a gwasgu'r botwm.

Y gatiau yn y siedau oedd Ieuan wedi hoffi fwyaf gan eu bod yn agor ac yn codi, oedd yn gwneud y gwaith yn llawer haws. Dros y cyfnod yma, fe wnaethon ni gwrdd â llawer o bobl wahanol, ac fe wellodd ein Saesneg. Fe wnaethon ni hefyd ddysgu ychydig o Ffrangeg a Sbaeneg, tra'n dysgu bach o Gymraeg i bobl o Seland Newydd ac o Wlad y Basg.

Ar y diwrnod olaf o ymarfer, roedd Jack Fagan a'i Dad, Syr David Fagan, yn yr un sied. I bobl sydd yn ddim yn gwybod pwy ydy nhw neu heb glywed ei henwau, nhw yw eiconau byd cneifio Seland Newydd, yn enwedig David Fagan.

Yn ystod ein hamser yn *Hawke's Bay*, fe wnaethon ni ymweld â *Napier*, *Hastings*, *Maraetotara Falls*, *Ocean Beach* a *Te Mata Peak*. Wedyn daeth hi'n amser i ni symud i lawr i *Masterton*, lle roedd Pencampwriaeth Cneifio'r Byd yn cael ei chynnal fel rhan o'r *Golden Shears*, ac roedd cystadleuwyr o 27 o wledydd yn cystadlu.

Fe wnaeth Dad ac Elfed gystadlu'n unigol yn yr adran Agored yn yr *Open All Nations Golden Shears*. Fe wnaethon nhw gyrraedd y rownd gynderfynol, gyda Dad yn gorffen yn 9fed ac Elfed yn 11eg.

Yn y Bencampwriaeth y Byd, aeth y ddau hefyd i'r rownd gynderfynol, gyda Dad yn gorffen yn 8fed ac Elfed yn 9fed.

Gan fod Dad ac Elfed yn cystadlu fel tîm, roedd eu pwyntiau unigol yn rowndiau 1 a 2 yn cael eu hadio at ei gilydd i weld pa chwe thîm oedd yn mynd i'r ffeinal. Llwyddodd Dad ac Elfed i gyrraedd y ffeinal a daeth Cymru yn y 5ed safle.

Roedd y trip i ben draw'r byd yn un gwerth chweil i ni gyd fel teulu. Fe wnaethon ni weld y wlad tra hefyd yn cael profiad o sut mae siediau cneifio a ffermio yn gweithio draw yno.

Mae'r ddau ohonom yn edrych ymlaen at fynd nôl i weld mwy o'r wlad, a gobeithio mynd yno i weithio pan fyddwn yn hŷn.

# LLOFFA YN Y LLOFFION

**Mae'n union saithdeg mlynedd ers i 'bapur bro' cyntaf yr ardal gael ei gyhoeddi, sef Lloffion Llangynfelyn. Ymddangosodd y rhifyn cyntaf yng Ngwanwyn 1956 gan gynnwys newyddion o'r cyfnod Ionawr hyd Fawrth. Prifathro Ysgol Llangynfelyn, John Evans, oedd y golygydd.**

O dro i dro rydym wedi cynnwys yn *Papur Pawb* rhai erthyglau difyr a gyhoeddwyd yn y *Lloffion*. Ond y tro hwn, gan fod y papur hefyd yn cynnwys llwyth o newyddion lleol, yn arbennig am hynt a helynt rai o drigolion hen ac ifanc y cylch, ceir rhai pytiau o'r papur isod. Bydd yr enwau yn gyfarwydd iawn i rai ohonoch. Ymhlith y digwyddiadau oedd:

**Ionawr**
Perfformiwyd y ddrama Yr Inspector gan gwmni Machynlleth yn yr Hen Gapel.
Bu'r Prifardd W J Gruffydd, Tal-y-bont, yn dangos y goron a enillodd yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
Cynhaliwyd Cyngerdd at y Gronfa Adeiladu yn Festri Rehoboth 'a'r lle yn llawn.'
**Chwefror**
Ar 8 Chwefror cynhaliwyd tri chyfarfod ar yr un noson: Dosbarth Dysgu Cymraeg yn yr ysgol; gyrfa chwist yn y Llan Fach; a chyfarfod cyhoeddus o Undeb Cenedlaethol Ffermwyr Cymru yn Festri Rehoboth.
Ddiwedd y mis cynhaliwyd cyngerdd 'uwchraddol' gan Gôr Merched y Borth a Mrs Bailey a Mrs Augusta Roberts yn adrodd. 'Cafodd y rhai a wynebodd oerni'r noson wledd ragorol.'
**Mawrth**
Gwasanaeth Gŵyl Ddewi'r Plant
**Hefyd:** 'Yn ôl yr arferiad sydd bellach yn hen yn y plwyf, cafwyd te a chyngerdd ar Ddydd Gwener y Groglith yn y ddau gapel. Yn yr hen ddyddiau bu gorymdeithio brwd ond bellach dim ond Soar sy'n cadw at hyn ac y mae hyd y siwrnai wedi ei chwtogi gryn dipyn.'
**Llongyfarchiadau:**
Mai Evans, Bronallt, a gynrychiolodd blant y cylch yn y Rhaglen Radio a ddaeth o Ysgol Ardwyn.
Jackie Phillips a fu ar y rhaglen deledu enwog Wilfred Pickles, 'Ask Pickles'.
**Genedigaethau:**
Bryn mab Mr a Mrs H Lewis, Tynllwyn
**Priodasau**
Mr Ypres Davies a Miss Edna Willmitt
David Lewis Evans, Stryd y Capel a Miss Isa Mason
Mr Dafydd Rowlands a Miss Mignon Roberts
**Yn y Lluoedd Arfog:**
Lewis Oliver, Trwyn-y-Buarth yn yr RAF; Gwynn Evans, Stryd y Capel yn R E M E, Bicester; David Morris MacDonald yn yr Almaen a'i frawd John Morgan MacDonald gyda'r RAF.
...
Mae *Lloffion Llangynfelyn* yn adlewyrchu bwrlwm afieithus Cymraeg a Chymreig y gymuned yn y cyfnod hwnnw.

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
07939 604804

## Biosffer Dyfi yn gwneud cam ymlaen gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru



Llun Afon Dyfi gan Patrick Laverty

**Mae Biosffer Dyfi UNESCO wedi sicrhau cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026-27. Mae hyn i gefnogi ei gynllun datblygu pum mlynedd ac yn nodi cam sylweddol ymlaen, gan agor posibiliadau ysbrydoledig i ganolbarth Cymru.**

Wedi'i ddynodi gyntaf yn ei ffurf bresennol yn 2009, mae Biosffer Dyfi yn cydnabod gwerth naturiol a diwylliannol rhagorol Dyffryn Dyfi a'r ardaloedd cyfagos, wedi'i ffinio gan Dywyn, Aberystwyth, Carno a chopa Aran Fawddwy. Dyma'r unig Fiosffer UNESCO yng Nghymru, un o saith yn y DU a rhwydwaith byd-eang o dros 700 - cartref i gannoedd o filiynau o bobl.

"Mae Biosffer yn labordy byw lle mae'r trigolion yn datblygu ffyrdd newydd o fyw gyda'r byd naturiol, gan ddod â'r economi a'r amgylchedd i gydbwysedd, felly mae'n ymwneud yn fawr â sut mae pobl yn gweithio ac yn ffynnu ynghyd â'r byd naturiol," meddai Ann MacGarry, cyd-gadeirydd Bwrdd y Biosffer.

Am flynyddoedd lawer, roedd y Biosffer yn gweithredu fel prosiect gwirfoddol i raddau helaeth, gan ddod ag awdurdodau lleol, cyrff statudol, sefydliadau gwirfoddol, undebau ffermio a busnesau bach ynghyd, gyda chefnogaeth gan ymddiriedolaeth datblygu Ecodyfi, sydd wedi'i lleoli ym Machylleth. Yn ystod y cyfnod hwn, cyflawnodd ystod eang o brosiectau gan gynnwys gwaith ar iechyd awyr agored, gwyddoniaeth dinasyddion, mythau a chwedlau, ysgolion, ac yn fwyaf diweddar bwyd a ffermio.

Fodd bynnag, heb staff craidd priodol, roedd cynnydd yn gyfyngedig. Yn ei Adolygiad Cyfnodol UNESCO yn 2019, roedd yn amlwg y byddai sicrhau cyllid cynaliadwy yn hanfodol ar gyfer dyfodol y Biosffer.

Daeth cymorth gan Lywodraeth Cymru yn 2023 gyda grant datblygu. Ynghyd ag ymgynghoriaeth a ddarparwyd gan Gomisiwn Cenedlaethol y DU ar gyfer UNESCO, a ariannwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, galluogodd hyn y Biosffer i wneud cynnydd ar gynllunio ariannol, ymgysylltu â'r gynulleidfa a chyfathrebu digidol.

Dilynwyd hyn gan gefnogaeth ychwanegol gan Ecodyfi a ganiataodd benodi dau gydlynydd rhan-amser. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae hyn wedi arwain at ehangu sylweddol mewn gweithgareddau. Mae gwaith diweddar yn cynnwys cwblhau prosiect bwyd a ffermio Tyfu Dyfi, cymryd rhan ym menter iechyd awyr agored Awyr Lach, a chyflwyno Sgrechian a Socian, prosiect gwyddoniaeth dinasyddion sy'n cyfuno iechyd afonydd â gwenoliaid duon. Mae bellach yn sefydlu ei adran ei hun o Goedwig Genedlaethol i Gymru.

Mae'r Biosffer yn un o nifer o safleoedd UNESCO yng Nghymru, ynghyd â phedair Safle Treftadaeth y Byd, dau Geoparc, dwy gadair prifysgol a Dinas Diwylliant newydd, Dinas Llên Aberystwyth/Ceredigion. Fel rhan o'r rhwydwaith hwn, a gyda chefnogaeth Comisiwn Cenedlaethol y DU ar gyfer UNESCO gyda chyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, trefnodd weithdy yn ddiweddar ar Adeiladu Heddwch â Natur, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Aberystwyth.

Dywedodd Matthew Rabagliati, Pennaeth Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu yng Nghomisiwn Cenedlaethol y DU ar gyfer UNESCO: "Rydym wrth ein bodd bod Biosffer UNESCO Dyfi wedi derbyn y gefnogaeth a'r gydnabyddiaeth hon am ei waith pwysig yng nghanolbarth Cymru. Mae'r gymeradwyaeth hon gan Lywodraeth Cymru yn tynnu sylw at y rôl hanfodol, sydd yn aml yn anweledig, y mae'r bartneriaeth yn ei chwarae wrth ddod â chymunedau, sefydliadau a busnesau ynghyd.

Mae'r garreg filltir hon hefyd yn adlewyrchu cyfraniad Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, trwy ein rhaglen Lleol i Fyd-eang, wrth helpu i gryfhau sylfeini'r Biosffer.

Mae biosfferau yn llwyfannau pwerus ar gyfer cydweithio, ac edrychwn ymlaen at barhau i gefnogi Biosffer Dyfi wrth iddo fynd i mewn i'r cyfnod newydd cyffrous hwn. Diolch."

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Jane Powell ar 07929 857173 neu James Cass 01654 01654 703965.


APPROVED CONTRACTOR

**Alun Davies**
Contractiwr Trydanol

**M** 07703 169813

Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
**E** alun.davies142@btinternet.com





Salon Leri

Pob agwedd o drin gwallt gan Richard

Mawrth i Gwener
9.30 – 5.00

**01970 832 674**



**Garej Davmor**

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont



**Cawl a Chân**
Cafodd y plant gyfle gwych i gymryd rhan mewn noson arbennig yn y Neuadd Goffa, gyda gwledd o adloniant gan y plant ac aelodau o Gwmni Drama Licyris Olsorts. Yn ogystal â'r perfformiadau, cawsom hefyd wledd flasus o gawl a chacennau. Diolch o galon i bawb a fu'n rhan o drefnu noson mor hyfryd, ac i Bwyllgor y Neuadd am eu rhodd hael iawn i'r ysgol.

**Diwrnod y Llyfr a Bethan Gwanas**



Bethan Gwanas yn gwobrwyo Mostyn

Yn ogystal â gwisgo fel cymeriadau o'n hoff lyfrau, cawsom hefyd y pleser o groesawu'r awdures Bethan Gwanas i'r ysgol. Rhannodd Bethan lond llaw o straeon doniol, gan ysbrydoli'r plant i fwynhau darllen ac i roi tro ar ysgrifennu eu straeon eu hunain. Cyn gadael, llwyddodd i gasglu digon o syniadau ar gyfer straeon newydd – felly pwy a ŵyr, efallai y clywn ni am helyntion tractors ac anturiaethau beicwyr mynydd cyn bo hir! Llongyfarchiadau i Mostyn ar ennill y llyfr Honco! Roedd Bethan wedi mwynhau cymaint nes ei bod wedi anghofio tynnu lluniau ac wedi chwerthin yr holl ffordd gartref.  Roeddem yn ffodus i dderbyn yr ymweliad dan nawdd "Aberystwyth – Ceredigion – Dinas Llên UNESCO".


Diwrnod y Llyfr Dosbarth Allt y Crib

**Ymweliad â Llyfrgell y Dref a Mari Lovegreen**
Wel am fore llawn hwyl a chwerthin a gafodd Blynyddoedd 3–6 ar y 12fed o Fawrth! Cawsom fynd ar y bws i Lyfrgell y dref i gwrdd â'r awdures Mari Lovegreen. Roedd nifer o'r plant eisoes yn ei hadnabod fel cyflwynydd rhaglenni **Cefn Gwlad**, **Y Sioe Fawr** ac **Eisteddfod yr Urdd**, yn ogystal ag fel actores ar **Mabinogi-ogi**, ond y tro hwn roedd hi yma i sôn am ei llyfr **"Llyfr Sgrap Macs Sion"**. Mwynhaodd pawb wrando ar Mari'n darllen darnau o'r llyfr, yn defnyddio eu dychymyg i greu cymeriad doniol ac, wrth gwrs, yn chwerthin a rhannu jôcs. Doedd neb yn awyddus i adael, ac rydym i gyd yn edrych ymlaen at ddarllen **"Llyfr Sgrap Macs Sion 2"** yn y dyfodol. Mae'n siŵr y bydd ciw hir wrth ddrws siop Y Lolfa!

# Ysgol

**Cwis Caru Darllen**
Cawsom lawer o hwyl yn cymryd rhan yn y **Cwis Caru Darllen** fel rhan o gyfres o weithgareddau dysgu e-sgol. Cynhelir y cwis yn rhithiol ar *Teams*, gyda'r plant yn defnyddio ap *Kahoot* i ateb y cwestiynau. Roedd rhaid gwrando'n ofalus ac ymateb yn gyflym – gan wneud y cyfan yn gyffrous iawn!

**Stroliwch a Rholiwch (Mawrth 16-27)**
Mae Stroliwch a Rholiwch yn ymgyrch blynyddol i annog plant a staff i gerdded, sgwtera neu seiclo i'r ysgol. Fel rhan o'r ymgyrch, cafodd y plant gyfle i gael cyfnodau i seiclo, sgwtera neu hyd yn oed sglefr-rholio ar iard yr ysgol. Roedd y tywydd yn ffafriol iawn i ni eleni a cawsom ddigon o gyfle i fwynhau'r ymarfer corff yn yr awyr iach.

**Diwrnod Trwynau Coch – *Comic Relief***
**Gwisgo dillad coch** a  **gwallt gwyllt** oedd dewis y Cyngor Ysgol ar gyfer thema'r diwrnod eleni. Bu'r dosbarthiadau'n brysur yn defnyddio eu sgiliau rhifedd a thechnoleg bwyd i goginio cacennau blasus i'w rhannu. Yn y prynhawn, cynhaliwyd stondinau peintio wynebau a gêm ddyfalu enw'r tegan, cyn gorffen gyda chystadleuaeth dweud jôcs. Mae'n saff dweud bod dyfodol "stand-yp" yn ddiogel iawn yn nwylo Dosbarth Mynydd Gorddu! Llongyfarchiadau i Skylar am ddyfalu enw'r tegan yn gywir - Hari Pari!

**Cystadleuaeth Rygbi Agored yr Urdd Ceredigion**
Roedd rhaid i'r tîm godi'n gynnar i ddal y bws i Lambed ar gyfer y twrnament ar yr 20fed o Fawrth. Perfformiodd pob un yn arbennig o dda gan ennill pob gêm gyrraedd brig eu grŵp yn hawdd. Enillon nhw'r gêm nesaf cyn wynebu Ysgol Gynradd Aberaeron yn y rownd gynderfynol. Aberaeron aeth â hi ond rydym mor falch o ymdrech, ysbryd a llwyddiant y criw. Pob lwc i Ysgol Gynradd Aberaeron ac Ysgol Dyffryn Teifi fydd yn cynrychioli Ceredigion yn yr Ŵyl Genedlaethol ym mis Mehefin. Diolch yn fawr iawn i Dominic Jenkins a Dylan Morgan am y sesiynau hyfforddi.

**Eisteddfod yr Urdd Cylch Ystwyth**


Eisteddfod yr Urdd Y Côr dan arweiniad Mr Roberts

Rydym yn hynod o falch o Magw Ifan am gystadlu yn un o'r cystadlaethau mwyaf poblogaidd eleni – Canu Unawd Blwyddyn 2 ac iau. Fe ganodd Magw'n hyfryd – da iawn ti. Gobeithio gei di fynd ar wyliau i'r Caribî rhyw ddiwrnod!

***Rocio i'r Rhythm*** oedd teitl cân y côr eleni ac fe roddon nhw berfformiad gwych ar lwyfan y Neuadd Fawr gan gipio'r wobr gyntaf! Rydym yn dymuno pob hwyl iddynt ar gyfer yr Eisteddfod Rhanbarth a gynhelir eto yn y Neuadd Fawr ar y 18fed  Ebrill.

**Garddio**
Mae Dosbarth Mynydd Gorddu wedi bod yn brysur iawn yn

# Tal-y-bont

chwynu ac yn clirio, gan baratoi ar gyfer y tymor nesaf. **Y Byd Gwyrdd** fydd thema pob dosbarth yn Nhymor yr Haf, ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at dreulio rhagor o amser yn dysgu ac yn mwynhau yn yr awyr agored.

**Gweithgareddau Pasg**



Helen Vardy Pencampwr Cymunedol Tesco yn dosbarthu rhoddion Pasg

Cawsom ymweliad gan Helen Vardy, Pencampwr Cymunedol Tesco gyda rhodd o adnoddau ac addurniadau Pasg a gofynnodd a fyddai'r plant yn dymuno creu celf ar thema'r Pasg i'w harddangos yn y siop. Mae'n braf dweud fod y gwaith i'w gweld yn siop Tesco ar hyn o bryd.

Bu'r dosbarthiadau'n brysur yn creu cardiau Pasg ac roedd plant Dosbarth Mynydd Gorddu'n edrych yn smart iawn yn eu hetiau Pasg.

Cofiwch bod croeso i chi ymuno gyda ni yn y Neuadd Goffa ar gyfer ein Ffair Pasg ar y 12fed o Ebrill. Diolch yn fawr iawn i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu cefnogaeth ac fod mor weithgar.

**Ffarwelio**
Wrth i'r tymor ddod i ben, daeth hefyd yn amser i ffarwelio â Mr Roberts a Miss Wilkins. Cawsom wasanaeth arbennig i ffarwelio ac i ddweud diolch yn fawr am eu gwaith. Roedd y plant yn awyddus iawn i rannu cardiau a geiriau caredig, gan dynnu sylw at eu huchafbwyntiau, a chafodd aelodau o'r Cyngor Ysgol gyfle i ddiolch ar ran pawb yn yr ysgol. Rydym yn dymuno'r gorau i'r ddau ar gyfer y dyfodol.


Adweitheg
(Reflexology)
Bethan Ifan – Aberystwyth
07375 422 608



Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553


## SÊL PEN BWRDD CRONFA CAE BACH



Parhaodd prosiect Cronfa Cae Bach ar benwythnos olaf mis Mawrth gyda Sêl Pen Bwrdd. Roedd y Neuadd Goffa yn llawn dop o bethau i blant, i'r tŷ a'r ardd, *antiques*, llyfrau, gemau a llawer mwy. Roedd cyfle hefyd i eistedd a mwynhau paned a chacen gartref gyda theulu a chymdogion. Diolch i'r holl stondinwyr ac i bawb a ddaeth i'n cefnogi. Ychwanegwyd £388.00 at y gronfa.

Ein digwyddiad nesaf yw'r Sêl Planhigion gyda paned a chacen ar 25 Ebrill am 10 o'r gloch. Dewch yn gynnar!

## Cwis y Blaid



Y cwisfeistri Elin a Dafydd Morse yng nghwmni'r tîm buddugol.

Cynhaliwyd noson gwis gan Gangen Plaid Cymru Tal-y-bont i godi arian at ymgyrch etholiadau'r Senedd ym mis Mai. Cafwyd noson hwyliog iawn yng ngofal y cwisfeistri Elin a Dafydd Morse o Langeitho. Eu mam-gu nhw oedd Marie James o Langeithio, sef y cynghorydd sir cyntaf a etholwyd yn enw Plaid Cymru ar yr hen Gyngor Sir Dyfed. Bu 11 o dimau yn cystadlu wedi cyfres o rowndiau amrywiol, gan gynnwys ambell rownd greadigol ddigon anarferol lle'r oedd gofyn i'r tîm lunio modelau clai o dyrau ac adeiladau eiconig. Mewn gornest agos iawn, y tîm buddugol oedd 'Yr Huwsiaid'.


argraffu
lleol a rhesymol


y lolfa
Talybont Ceredigion SY24 5HE
01970 832 304 / **www.ylolfa.com**
Holwch Paul am bris: paul@ylolfa.com

# Yn NATURiol



**A oeddech chi'n gwybod bod nifer y draenogod wedi gostwng o draean ers 5 mlynedd?**

Wrth i'r tywydd gynhesu, mae draenogod yn deffro ar ôl cysgu drwy'r gaeaf (gaeafgysgu). Maen nhw'n llwglyd iawn ac angen help i ddod yn gryf eto!

Gallwn ni helpu mewn ffyrdd syml, drwy roi bwyd cathod cigog gwlyb neu sych allan iddynt (mae bisgedi cath sych yn berffaith achos eu bod yn hawdd iddynt eu bwyta), a phowlen o ddŵr ffres (dim llaeth!). Gadewch ardaloedd gwyllt yn eich gardd gyda dail a brigau fel bod draenogod yn medru cuddio. Byddwch yn ofalus wrth dorri'r glaswellt neu gynnau coelcerthi, gan y gall draenogod fod yn cuddio. Os gwelwch ddraenog yn ystod y dydd yn edrych yn wan neu wedi brifo, dywedwch wrth oedolyn.

Dwi wedi gael y wybodaeth oddiwrth AI, Cymdeithas Cadwraeth Draenogod Prydain (01584 890801) a Noddfa Draenogod (https://hedgehoghelp.uk)

Mae'r astudiaeth hon yn awgrymu y gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol i helpu draenogod i oroesi a ffynnu yn ein gerddi a'n pentref.

Cyflwr Draenogod Prydain 2022 ar gael yn https://www.hedgehogstreet.org

**Amser Cwis!**

Pryd mae draenogod yn deffro? **A)** Haf **B)** Gwanwyn **C)** Gaeaf

Beth mae'n nhw'n yfed? **A)** Llaeth **B)** Sudd **C)** Dŵr

Ble maen nhw'n cuddio? **A)** Coed **B)** Pentyrrau dail **C)** Awyr

Pryd maen nhw'n effro? **A)** Dydd **B)** Nos **C)** Amser cinio

Beth os gwelwch un yn ystod y dydd? **A)** Anwybyddu **B)** Dweud wrth oedolyn **C)** Rhoi melysion

Atebion B) C) B) B) B)
Nawr tynnwch lun eich draenog eich hun

Linda Denton






# Cornel Cŵl


**Cystadleuaeth** - cyfle i ennill copi o 'Hud y Mabinogi' gan Rhiannon Ifans trwy haelioni'r Lolfa. Atebwch y cwestiynau a danfonwch eich atebion ar e-bost i **rhian.nelmes@btinternet.com** erbyn Ebrill 26ain. Cofiwch roi eich enw a'ch oed, cyfeiriad a'r atebion i gyd yn yr e-bost a gofynnwch am ganiatâd eich rhieni neu ofalwyr.

**Pob lwc!**

1. Beth oedd enw'r ferch a wnaeth Gwydion allan o flodau?

2. Pa aderyn aeth a neges Branwen o Iwerddon i Gymru at ei brawd Bendigeidfran?

3. Culwch ac ___________ ydy enw un stori.




**Hud Y Mabinogi gan Rhiannon Ifans, Gwasg Y Lolfa, £5.99**

Argraffiad newydd a hir-ddisgwyliedig o'r casgliad o straeon o'r Mabinogion i blant wedi eu diweddaru ar gyfer darllenwyr cyfoes. Yn cynnwys straeon Rhiannon a Branwen o Bedair Cangen y Mabinogi, a hefyd Lludd a Llefelys, Breuddwyd Macsen ac eraill o'r chwedlau Arthuraidd.

# Sudoku Papur Pawb

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2 | | | | 9 | | 7 | 6 |
| | 7 | | 6 | 2 | | 8 | 9 | |
| | 4 | 6 | | 8 | 5 | | 3 | |
| | 8 | 2 | 9 | | | | 6 | |
| 5 | 6 | | | | 8 | | 2 | |
| 7 | | | | 6 | 2 | 9 | | 8 |
| | 5 | 8 | 2 | | 6 | 7 | 4 | |
| | 3 | 4 | 8 | | 7 | 5 | | 2 |
| | 9 | 7 | 5 | | | | 8 | |

Dyma Sudoku Papur Pawb. Rhowch rhif o 1 i 9 ym mhob cell wag fel bod pob rhes, colofn a bwlch yn cynnwys pob rhif o 1 i 9 heb ail-adrodd. Cofiwch ddefnyddio rhifau Cymraeg yn unig!












# Y Gair Olaf



Mae yna lawer o sôn heddiw am dai fforddiadwy yn sgil anhawster pobl ifanc lleol i gystadlu yn y farchnad sydd ohoni. Doedd hi ddim llawer gwahanol yng nghanol y 1970au pan oeddem yn ceisio prynu ein tŷ cyntaf. Nid oedd fy nghyflog yn ddigon uchel i fedru fforddio tŷ newydd ym maestrefi Aberystwyth, ond fe ddaeth achubiaeth drwy fudiad Adfer wrth iddynt osod tri thŷ yn Nhregaron. Cawsom gynnig un ohonynt ar rent. Roedd Adfer yn rhentu tai i Gymry ifanc ac yn disgwyl y byddent yn cyfrannu at fywyd y gymdeithas leol, a magu eu plant yn y Gymraeg. Gweithiodd hyn yn dda yn Nhregaron gan i denantiaid Adfer ddod yn flaenllaw mewn sawl agwedd o fywyd y dref – yn cynnwys sefydlu'r papur bro a'r Clwb Rygbi, a chefnogi achosion crefyddol a diwylliannol y dref.

Fe wnaeth hyn oll fy nharo yn ddiweddar wrth fynychu angladd cyd-weithiwr a chyfaill agos. Bu Cledwyn Fychan yn flaenllaw yng ngwaith Adfer, ac roedd hi'n dda gweld cynifer o gyn-swyddogion y mudiad yng Nghapel y Garn i ddathlu bywyd cyfoethog Cledwyn. A chefais gyfle i argyhoeddi Emyr Llywelyn, prif sylfaenydd y mudiad, fod athroniaeth Adfer wedi gweithio'n llwyddiannus iawn yn Nhregaron. Ac mae nifer o'r cyn denantiaid a'u plant yn dal i fyw yno ac yn parhau i gyfoethogi bywyd y dref.

Erstalwm, pan osodwyd tai cyngor, yr aelod lleol oedd â'r dylanwad pennaf. Dwn i ddim sut mae tenantiaid tai cymdeithasol yn cael eu dewis, ond efallai nad yw teuluoedd lleol yn cael digon o flaenoriaeth. Medrwn ddal i ddysgu llawer oddi wrth ganllawiau gosod Adfer os am adeiladu cymdeithas gref a Chymraeg.

Richard E. Huws

# Eisteddfod Yr Ysgol



Noah Jamieson, Bardd y Gadair

**Cloc Aberfan**

Gwelaf blant blinedig yn cerdded i'r gwasanaeth
Clywaf y glaw brwnt ar y ffenest
Blasaf y mwg llawn tristwch o'r mwynfeydd
Aroglaf y bwyd o'r gegin sydd yn flasus iawn
Teimlaf oerfel y gwynt yn troelli o fy nghwmpas i

Gwelaf y plant yn neidio o dan y bwrdd yn ddiymadferth
Clywaf y plant yn sgrechian mewn ofn
Blasaf y mwd o'r gwastraff glo creulon yn bwrw'r ysgol fel roced
Aroglaf lwch glo ymhobman yn llenwi'r dosbarth
Teimlaf gerrig ar ôl cerrig yn bwrw'r ysgol fel trên enfawr
Teimlaf yn ddiymadferth ar ôl y mwd a'r cerrig fwrw fi lawr eto ac eto.

Ni welaf blant blinedig yn cerdded i'r gwasanaeth
Ni chlywaf y glaw brwnt ar y ffenest
Ni flasaf y mwg llawn tristwch o'r mwynfeydd
Ni aroglaf y bwyd o'r gegin sydd yn flasus iawn
Ni theimlaf oerfel y gwynt yn troelli o fy nghwmpas i.

Noah Jamieson



Capteiniaid Leri



Eisteddfod Enillwyr Tlysau a Chwpannau Unigol

**Canu Blwyddyn 6**
1. Freya / Ela Wyn
2. Osian Siôn
3. Rory / Noah

**Llefaru Blwyddyn 6**
1. Daniel
2. Noah / Freya
3. Elis Wyn / Osian Siôn

**Chwythbrennau Bl 3 a 4**
1. Katri
2. Alba / Erin

**Canu Blwyddyn 5**
1. Mostyn
2. Morven / Elis
3. Skylar

**Llefaru Blwyddyn 5**
1. Elis
2. Morven
3. Mostyn / Elsi

**Canu Dosbarth Derbyn**
1. Nela / Lilly
2. Daisy / Gwenno Jên
3. Ela / Mali

**Llefaru Dosbarth Derbyn**
1. Nela
2. Ela / Daisy
3. Gwenno Jên / Eira

**Offerynnol Dosbarth Mynydd Gorddu (Dysgu Sylfaen)**
1. Magw

**Canu Blwyddyn 1**
1. Seren / Pererin
2. Tabitha / Efan

**Llefaru Blwyddyn 1**
1. Seren / Pererin
2. Efan / Tabitha

**Pres Blwyddyn 5 a 6**
1. Rory / Mostyn
2. Elis J / Freya

**Llinynnau Blwyddyn 3 a 4**
1. Delilah
2. Sorsha

**Canu Blwyddyn 2**
1. Magw
2. Efan / Seren
3. Elis / Conor / Macsen

**Piano Blwyddyn 3 a 4**
1. Delilah
2. Sorsha / Katri

**Llefaru Blwyddyn 2**
1. Efan / Magw / Seren
2. Conor / Elis / Macsen

**Canu Blwyddyn 3**
1. Sorsha / Lola
2. Gracie
3. Tomos / Erika / Owain

**Llefaru Blwyddyn 3**
1. Sorsha
2. Lola / Grace / Tomos
3. Owain / Erika

**Piano Blwyddyn 5 a 6**
1. Noah
2. Freya / Sasha

**Canu Blwyddyn 4**
1. Jessie
2. Katri / Lola
3. Delilah / Alba / Erin

**Llefaru Blwyddyn 4**
1. Jessie
2. Katri / Lola
3. Deilah / Alba / Erin

**Llinynnau Blwyddyn 5 a 6**
1.Bess

**Côr**
1. Ceulan
2. Leri

**Celf Bl 6**
1. Ela
2. Freya / Rory
3. Daniel

**Celf Bl 5**
1. Elsi
2. Ela / Bess
3. Skylar

**Celf Bl 4**
1. Katri
2. Delilah / Jessie
3. Lola / Erin / Alba

**Celf Bl 3**
1. Lola
2. Sorsha / Brân / Erika
3. Gracie / Owain / Tomos

**Celf Bl 2**
1. Magw / Efan
2. Seren / Elis
3. Macsen / Conor

**Celf Bl 1**
1. Seren
2. Tabitha / Efan
3. Lola / Pererin

**Celf Dosbarth Derbyn**
1. Gwenno D / Eira / Mali
2. Ela / Lilly / Gwenno Jên / Madog
3. Alexander / Nela

**Llawysgrifen Bl 6**
1. Freya
2. Ela
3. Osian

**Llawysgrifen Bl 5**
1. Elsi
2. Bess
3. Mostyn

**Llawysgrifen Bl 4**
1. Delilah / Katri
2. Alba / Erin
3. Lola / Jessie

**Llawysgrifen Bl 3**
1. Sorsha / Lola
2. Tomos / Gracie
3. Erika / Owain

**Llawysgrifen Bl 2**
1. Seren / Magw
2. Efan / Macsen
3. Conor / Elis

**Llawysgrifen Bl 1**
1. Efan
2. Tabitha / Seren
3. Lola / Pererin

**Celf Digidol Dosbarth Derbyn**
1. Daisy
2. Lilly / Woody
3. Mali / Ela / Eira

**Perfformiad Cerddorol Gorau y Cyfnod Sylfaen** - Magw

**Cwpan Llefaru Cyfnod Sylfaen (Derbyn, Bl1, Bl2)** - Nela

**Cwpan Canu CA2** - Mostyn

**Cwpan Llefaru CA2** - Daniel

**Cwpan Offerynnol CA2** - Noah

**Tlws Celf a Llawysgrifen** - Magw / Lola M / Katri / Elsi

**Marciau uchaf yn y Dysgu Sylfaen** - Magw

**Marciau uchaf yr Eisteddfod** - Katri

**Tŷ Buddugol** - Leri

**Cadair yr Eisteddfod**
1, Noah
2. Daniel a Delilah
3. Ela Wyn a Katri

## Clwb Ieuenctid yn ail-agor gyda chefnogaeth gref gan y gymuned



**Bydd y clwb ieuenctid yn ailagor ei ddrysau ar ôl cau dros dro oherwydd prinder gwirfoddolwyr, diolch i don newydd o gefnogaeth gan y gymuned.**

Roedd y clwb, sy'n cyfarfod bob nos Wener rhwng 6:30 a 8:30yh, wedi gorfod atal ei weithgareddau ym mis Chwefror. Fodd bynnag, yn dilyn cyfarfod cyhoeddus llwyddiannus, mae 15 o wirfoddolwyr bellach wedi dod ymlaen i sicrhau bod y clwb yn gallu parhau i weithredu.

Mae'r clwb ar agor i bobl ifanc o Flwyddyn 6 ysgol gynradd hyd at 16 oed, ac mae wedi bod yn ganolfan boblogaidd i ieuenctid lleol ers amser ei ail-sefydlu yn 2018. Gall hyd at 45 o bobl ifanc fynychu'n rheolaidd, gyda llawer yn teithio o ardaloedd cyfagos i gymryd rhan.


Mae'r clwb yn cynnig ystod eang o weithgareddau wedi'u trefnu, gan roi lle diogel a chroesawgar i bobl ifanc gymdeithasu, dysgu sgiliau newydd, a chael hwyl. Yn ogystal â'r sesiynau wythnosol, trefnir teithiau i leoedd fel y sinema a'r pwll nofio, gan ychwanegu at yr amrywiaeth o brofiadau sydd ar gael.

Cynhelir y sesiynau yn neuadd y pentref, sy'n gyfleuster rhagorol ar gyfer gweithgareddau'r clwb. Gyda sylfaen gref o wirfoddolwyr bellach yn ei lle, mae'r dyfodol yn edrych yn addawol.

Mae'r trefnwyr yn falch iawn o'r gefnogaeth a dderbyniwyd ac yn gobeithio y bydd y clwb yn parhau i ffynnu yn y blynyddoedd i ddod.

## Arddangosfa Ffotograffiaeth Cletwr


**Gwlân**



Gwlân yw enw'r arddangosfa yma. Dros y blynyddoedd rwyf wedi datblygu llawer o luniau'n cynnwys defaid a gwlân. Roeddwn i wedi hoffi tynnu'r portreadau o bobl sy'n gweithio gyda defaid ac mae'r lluniau'n dod o wahanol fannau, fel y Sioe Fawr yn Llanelwedd; llun 'Dei Cneifiwr' ar fferm Penbryn yng Ngoginan; llun Mr Bennett Jenkins ar fferm Cerrig Caranau a llun y cneifwyr gyda gwellau yn Sioe Tal-y-bont rai blynyddoedd yn ôl. Dwi'n hoffi tynnu lluniau mwy haniaethol hefyd gydag ongl ychydig bach yn wahanol ar bethau.

Rwyf wedi bod yn ffodus iawn i gael tiwtoriaid amyneddgar iawn yn y gwersi yng Nghanolfan y Celfyddydau gan gynnwys yr enwog Ron Davies, Bernard Mitchell, Marian Delyth, Steven Bailey a Brian Godding – bob un ohonynt yn ffotograffwyr gwych sydd wedi bod mor barod i rannu eu gwybodaeth gyda fi.
Minolta X-300 yw'r camera a XP5 oedd y ffilm a ddefnyddiais ar gyfer y ffotograffau yma.

Hefin Jones







Llongyfarchiadau mawr i Anwen Howard, Tal-y-bont a Claire Jones, Ffwrnais ar eu perfformiadau yn y ddrama '*The Tenant of Wildfell Hall*' gan Anne Bronte (addaswyd gan Lucy Gough) gan Theatr Gymunedol Aberystwyth yn Theatr y Werin ar yr 20fed a'r 21ain o Fawrth.

**Gwefan Papur Pawb:**
**papurpawb.cymru**
**Gwefannau cymdeithasol:**
**@papurpawb**







# Chwaraeon a Hamdden

## GÊM GWPAN



Llun drwy garedigrwydd Ifor Roberts

**Ar nos Fercher 1af o Ebrill, chwaraeodd CPD Tal-y-bont yn erbyn Felinfach yn rownd gyn-derfynol Cwpan Coffa Dai Dynamo, ar Gae Baker Penrhyn-coch.**

Ar bapur, Felinfach oedd y ffefrynau, ond ar y noson fe chwaraeodd bechgyn Tal-y-bont yn arwrol, ag nid oedd y sgôr terfynol o 4-1 i Felinfach yn adlewyrchiad teg o'r chwarae.

Fe aeth Felinfach ar y blaen ar ôl 20 munud, ond fe ddaeth Tal-y-bont yn gyfartal gyda gôl wych o'r tu allan i'r cwrt cosbi gan Aled Parry Evans. Roedd gweddill yr hanner cyntaf yn agored, gyda James Graham a Tom Benjamin yn cael cyfleuon da i Dal-y-bont, a Dylan Benjamin yn gryf yng nghanol y cae, gan arwain y tîm ymlaen.

Gyda llai na 5 munud cyn hanner amser fe sgoriodd Felinfach i'w gwneud yn 2-1, ond yn waeth na'r gôl, fe anafodd golwr Tal-y-bont, Matt Toy ei gefn, gan ei orfodi i adael y cae ar hanner amser. Golyga hyn sawl newid i Dal-y-bont yn ystod yr egwyl, gyda Dylan Benjamin yn mynd i'r gôl am yr ail hanner.

Roedd tîm Felinfach yn chware pêl-droed da ar adegau, a nhw sgoriodd ddwywaith yn yr ail hanner, wrth i Dal-y-bont geisio eu gorau i ddod â'r gêm yn gyfartal.

O flaen torf sylweddol, fe all bechgyn Talybont fod yn falch iawn o'r ymdrech yn erbyn tîm cryf o gynghrair De Ceredigion.

Evan Rowlands


Grant Mayhew Ltd
GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL





01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

GWASANAETHAU
JETTING
JENKINS
JETIO DRAENIAU DOMESTIG A MASNACHOL & AROLYGON CCTV
jenkinsjetting@hotmail.com
07958 701861


## CAPIAU DROS GYMRU



**Rhaid bod rhywbeth yn y dŵr ym mhlwyf Llangynfelyn. Dyma lun o dîm pêl-droed Taliesin, 1960-61. Mae 'na nifer o ddynion adnabyddus iawn yma (gweler yr enwau ar ddiwedd y llith hwn). Ond a wyddech chi fod wyrion dau ohonynt wedi ennill capiau dros Gymru?**

Bydd darllenwyr *Papur Pawb* yn gyfarwydd iawn â'r ffaith mai Gwyn 'Titch' Evans yw tad-cu Rhys Norrington-Davies, a enillodd ei 15fed gap dros Gymru yn y gêm yn erbyn Gogledd Iwerddon ddiwedd Mawrth.

Ond a wyddech chi fod tad-cu un a enillodd gap i dîm rygbi dan-20 Cymru mis diwethaf hefyd yn y llun?

Y gôl-geidwad yn y rhes gefn yw'r diweddar Ken Jones, Tre'r ddôl, a'i ŵyr ef yw Steffan Jac Jones a chwaraeodd i Gymru yn y gêm dan-20 yn erbyn yr Eidal. Maswr yw ei safle a bu ef a chapten y tîm Deian Gwynne yn ymweld â'u hen ysgol, Penweddig, yn ddiweddar.



Steffan Jac ar y dde gyda Deian Gwynne, capten y tîm, ynghyd ag aelodau staff Ysgol Penweddig. (llun drwy garedigrwydd Ysgol Penweddig).

Mae cysylltiad arall â'r ardal hon. Bydd rhai ohonoch yn cofio cael eich dysgu gan Mrs Nia Jones pan oedd hithau'n athrawes yn Ysgol Tal-y-bont tua ugain mlynedd yn ôl. Mam Steffan Jac yw Mrs Jones.

**Dyma enwau tîm Taliesin:**
Cefn: Jackie Middleton, Richie Jenkins, Ken Jones, Bob Rowlands, Eric Roberts, Gordon Edwards, Ron Roberts, Bill Kingshott; Blaen: Wil Jenkins, Dai Owen Evans, Jimmy Roberts, Gareth Williams, Gwyn Evans.